# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## (316)v3

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### Cwestiwn Brys

**Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau dan bwysau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? EAQ(4)0694(HSS)

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Y diweddaraf am y Rhaglen Buddsoddi i Arbed

(30 munud)

## 4 Rheoliadau Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016

(15 munud)

**NDM5973** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2016.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – – *Dim pwyntiau adrodd*

## 5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tai a Chynllunio sy'n ymwneud â rhyddfreinio ac estyn lesddaliadau hir

(30 munud)

**NDM5968** **Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai darpariaethau yn y Bil Tai a Chynllunio sy'n ymwneud â rhyddfreinio ac estyn lesddaliadau hir, i'r graddau y maent yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried gan Senedd y Deyrnas Unedig.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2015 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i) a (iii).

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

http://services.parliament.uk/bills/2015-16/housingandplanning.html (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

## 6 Cynnig i amrywio trefn Gwelliannau ar gyfer Cyfnod 3 y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

(5 munud)

**NDM5969** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

a. Adrannau 2-36

b. Adrannau 38-81

c. Adran 37

d. Adrannau 83-116

e. Adran 82

f. Adrannau 118-156

g. Adran 117

h. Adrannau 157-170

i. Adrannau 172-184

j. Adran 171

k. Adrannau 185-195

l. Adran 1

m. Teitl Hir

## 7 Cynnig i amrywio trefn Gwelliannau ar gyfer Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(5 munud)

**NDM5970** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

a. Adrannau 2 - 31

b. Atodlenni 1 a 3

c. Adrannau 32 - 52

d. Atodlen 2

e. Adrannau 53 - 57

f. Adrannau 59 - 96

g. Atodlen 4

h. Adran 58

i. Adrannau 97 - 117

j. Atodlen 5

k. Adrannau 118 - 126

l. Adran 1

m. Teitl Hir

## 8 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Estyn

(60 munud)

**NDM5972** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2014-15.

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2016.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2014-15

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod adroddiad Estyn yn nodi "mewn ysgolion sydd ag arweinwyr llwyddiannus, ceir diwylliant cadarn o ddysgu proffesiynol a ffocws ar wella ansawdd addysgu a dysgu" ac yn credu y byddai talu premiwm addysgu i staff addysg tra chymwysedig sy'n cynnal eu datblygiad proffesiynol yn cyfrannu'n sylweddol at godi safonau addysgu.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod adroddiad Estyn eleni yn dangos bod angen gwneud mwy i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion ysgolion uwchradd sy'n cael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu ar adeg pan fo nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd yn cynyddu, pan fo ysgolion yn cau, a phan fo prinder athrawon, fod dosbarthiadau llai ar gyfer babanod yn bwysicach nag erioed i roi amser i athrawon addysgu ein plant yn iawn.

## 9 Dadl ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 - Dyletswydd i Adolygu - Adroddiad Terfynol

(60 munud)

**NDM5971** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynnwys Adroddiad Terfynol y Ddyletswydd i Adolygu Asesiad Ôl-Ddeddfwriaethol o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

**Dogfen Ategol**

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) - Dyletswydd i Adolygu - Adroddiad Terfynol

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn annerbyniol o uchel.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod targedau amseroedd aros cyfredol yn cuddio amseroedd aros am therapïau seicolegol sy'n aml yn hir ac yn galw am ddata mwy tryloyw a rheolaidd am amseroedd aros ar gyfer ymyriadau seicolegol.

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 24 Chwefror 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 18 Chwefror 2016 i'w hateb ar 23 Chwefror 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)2718(FM)

2. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hyfforddi doctoriaid a nyrsys ym Mhrifysgol Abertawe? OAQ(4)2719(FM)

3. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth ar gyfer cymunedau arfordirol yng Nghymru? OAQ(4)2720(FM)

4. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau strategol y cynllun datblygu gwledig? OAQ(4)2729(FM)**W**

5. William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithiolrwydd buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn uwchraddio adeiladau ysgolion? OAQ(4)2725(FM)

6. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o adroddiad diweddar yr OECD ar yr adolygiad o ansawdd gofal iechyd yn y DU? OAQ(4)2731(FM)

7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg Brycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)2726(FM)

8. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi ffermwyr yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)2727(FM)

9. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oedi wrth drosglwyddo gofal? OAQ(4)2732(FM)**W**

10. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd mewn perthynas â gwella gwasanaethau iechyd yng Nghymru? OAQ(4)2730(FM)

11. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gyfraith bresennol ar ddympio gwastraff yn anghyfreithlon? OAQ(4)2722(FM)

12. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella mynediad at ofal sylfaenol ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed? OAQ(4)2724(FM)

13. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol ar draws Canol De Cymru? OAQ(4)2728(FM)

14. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl sydd angen gofal cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(4)2723(FM)

15. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â methiannau byrddau iechyd lleol yng Nghymru? OAQ(4)2721(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 1 Mawrth 2016 a dydd Mercher 2 Mawrth 2016**
**Dydd Mawrth 8 Mawrth 2016 a dydd Mercher 9 Mawrth 2016**
**Dydd Mawrth 15 Mawrth 2016 a dydd Mercher 16 Mawrth 2016**

---

**Dydd Mawrth 1 Mawrth 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 (15 munud)
- Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) (Diwygio) 2016 (15 munud)
- Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2016 (15 munud)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2016 (15 munud)
- Cyfnod 3 y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) (180 munud)

*Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.*

**Dydd Mercher 2 Mawrth 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ei adolygiad o Ddeisebau Cyhoeddus (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Jenny Rathbone (Canol Caerdydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 8 Mawrth 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

Nodwch y bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau am 13.00

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016 (15 munud)
- Cyfnod 4 y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) (15 munud)
- Dadl ar Ail Gyllideb Atodol 2015-16 (30 munud)
- Dadl ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2016-17 (60 munud)
- Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (240 munud)

*Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y*

*maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.*

**Dydd Mercher 9 Mawrth 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

Nodwch y bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau am 13.00

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)
- Dadl ar Setliad Llywodraeth Leol 2016-17 (60 munud)
- Dadl ar Setliad yr Heddlu 2016-17 (30 munud)
- Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (60 munud)

*Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.*

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig i gymeradwyo diwygiadau i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad (10 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Dyfodol ynni craffach i Gymru (60 munud)
- Dadl Fer - Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)

**Dydd Mawrth 15 Mawrth 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

Nodwch y bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau am 13.00

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (15 munud)
- Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgoriau Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016 (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar gyfer y Bil Menter mewn perthynas â darpariaethau Cod Rheoleiddwyr ac Awdurdod Sylfaenol (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y darpariaethau ym Mil Mewnfudo'r DU mewn perthynas â gofynion iaith Gymraeg ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandum rhif 4) ar gyfer y darpariaethau yn y Bil Menter sy'n ymwneud â Swyddi Sector Cyhoeddus: Cyfyngu ar Daliadau Ymadael (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Tai a Chynllunio sy'n ymwneud â Darpariaethau Prynu Gorfodol ac ati (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y darpariaethau ym Mil Menter y DU mewn perthynas â rhannu data ar gyfer prentisiaethau (30 munud)
- Dadl ar y cynllun addasu Tai (60 munud)
- Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (60 munud)

*Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.*

**Dydd Mercher 16 Mawrth 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ei ymchwiliad i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i Adolygiad Siarter y BBC (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)